



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 2288 (Cy.200)

2010 No. 2288 (W.200)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd
(Cymru) 2010

The Materials and Articles in
Contact with Food (Wales)
Regulations 2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3252 (Cy. 287)) fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2009/481 (Cy. 49) ac O.S. 2009/3105 (Cy. 271) ("Rheoliadau 2007") ac yn ailddeddfu, gyda diwygiadau penodol sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus, darpariaethau a gynhwyswyd yn y Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC ac 89/109/EEC (OJ Rhif L338, 13.11.2004, t.4) ("Rheoliad 1935/2004").

1. These Regulations revoke the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/3252 (W. 287)) as amended by S.I. 2009/481 (W. 49) and S.I. 2009/3105 (W. 271) ("the 2007 Regulations") and re-enact, with certain amendments relating to active and intelligent materials and articles, provisions contained in those Regulations. These Regulations provide for the enforcement of Regulation (EC) No. 1935/2004 of the European Parliament and of the Council on materials and articles intended to come into contact with food and repealing Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC (OJ No. L338, 13.11.2004, p.4) ("Regulation 1935/2004").

2. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer—

2. The Regulations also provide for—

- (a) gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 ar arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L384, 29.12.2006, t.75) ("Rheoliad 2023/2006");
- (b) gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sydd yn ymwneud â deunyddiau ac eitemau sydd wedi eu gwneud o gaen cellwlos atgynrychiedig ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd (OJ Rhif L172, 30.6.2007, t.71) ("Cyfarwyddeb 2007/42"). Yr oedd y Gyfarwyddeb hon yn diddymu ac yn cydgrynhoi Cyfarwyddeb y Comisiwn 93/10/EEC (OJ Rhif L93, 17.4.1993, t.27) fel y cafodd ei diwygio ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC (OJ Rhif L27, 30.1.2004, t.48); ac

- (a) the enforcement of Commission Regulation (EC) No. 2023/2006 on good manufacturing practice for materials and articles intended to come into contact with food (OJ No. L384, 29.12.2006, p.75) ("Regulation 2023/2006");
- (b) the implementation of Commission Directive 2007/42/EC relating to materials and articles made of regenerated cellulose film intended to come into contact with foodstuffs (OJ No. L172, 30.6.2007, p.71) ("Directive 2007/42"). This Directive repealed and consolidated Commission Directive 93/10/EEC (OJ No. L93, 17.4.1993, p.27) as last amended by Commission Directive 2004/14/EC (OJ No. L27, 30.1.2004, p.48); and

(c) gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L135, 30.5.2009, t.3) ("Rheoliad 450/2009").

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod cyfeiriadau at offeryn UE penodedig neu at rannau penodedig ohono i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn, neu at rannau ohono, fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd (*rheoliad 2(3)*).

4. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddeunyddiau neu eitemau y tu allan i gwmpas Rheoliad 1935/2004 (*rheoliad 3*). Y deunyddiau sy'n cael eu nodi yn y Rheoliad hwnnw fel rhai sydd y tu allan i'w gwmpas yw deunyddiau ac eitemau sy'n cael eu cyflenwi fel hynafolion, gorchudd neu ddeunyddiau araenu sydd yn rhan o'r bwyd ac y gellir eu bwyta gydag ef, ac offer sefydlog cyhoeddus neu breifat ar gyfer cyflenwi dŵr.

5. Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn drosedd i fynd yn groes i ofynion penodol yn Rheoliad 1935/2004 (*rheoliad 4*), Rheoliad 2023/2006 (*rheoliad 5*) a Rheoliad 450/2009 (*rheoliad 6*). Rheoliad 1935/2004 yw'r prif Rheoliad fframwaith ynglŷn â deunyddiau ac eitemau sydd mewn cysylltiad â bwyd.

6. Mae Rhan 2 yn darparu hefyd ar gyfer dynodi'r awdurdodau cymwys at y gwahanol ddibenion sydd wedi eu nodi yn Rheoliadau 1935/2004, 2023/2006 a 450/2009 (*rheoliad 7*).

7. Mae Rhan 3 yn cynnwys rheoliadau sydd yn ailddeddfu, heb ddiwygiadau, ddarpariaethau Rheoliadau 2007 o ran finyl clorid (*rheoliadau 8 a 9*).

8. Mae Rhan 4 yn cynnwys rheoliadau sydd yn ailddeddfu, heb ddiwygiadau, ddarpariaethau o Rheoliadau 2007 sy'n ymwneud â chaen cellwlos atgynrychiedig ("RCF") (*rheoliadau 10, 11 a 12*).

9. Yn neilltuol, mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn rheoli pa sylweddau y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu RCF, a all amrywio yn ôl a gaiff ei araenu â phlastigion ai peidio (*paragraff (3)*);
- (b) yn rheoleiddio pa sylweddau y ceir eu defnyddio i weithgynhyrchu araenau plastig ar gyfer RCF, ac o dan ba amodau (*paragraff (4)*);
- (c) yn creu rhanddirymiad amodol rhag paragraff (3) o ran sylweddau a ddefnyddir fel lliwyddion neu ludyddion wrth weithgynhyrchu RCF heb ei araenu â phlastig (*paragraff (5)*);

(c) the enforcement of Commission Regulation (EC) No. 450/2009 on active and intelligent materials and articles intended to come into contact with food (OJ No. L135, 30.5.2009, p.3) ("Regulation 450/2009").

3. These Regulations provide that references to a specified EU instrument or specified parts of it are to be construed as references to the instrument or parts of it as they may be amended from time to time (*regulation 2(3)*).

4. These Regulations do not apply to materials or articles outside the scope of Regulation 1935/2004 (*regulation 3*). The materials identified in that Regulation as being outside its scope are materials and articles supplied as antiques, covering or coating materials forming part of the food and which may be consumed with it and fixed public or private water supply equipment.

5. Part 2 of these Regulations contains provisions which make it an offence to contravene certain requirements of Regulation 1935/2004 (*regulation 4*), Regulation 2023/2006 (*regulation 5*) and Regulation 450/2009 (*regulation 6*). Regulation 1935/2004 is the principal framework Regulation on materials and articles in contact with food.

6. Part 2 also provides for designation of the competent authorities for the various purposes identified in Regulations 1935/2004, 2023/2006 and 450/2009 (*regulation 7*).

7. Part 3 consists of regulations which re-enact, without amendment, the provisions of the 2007 Regulations relating to vinyl chloride (*regulations 8 and 9*).

8. Part 4 contains regulations which re-enact, without amendment, provisions of the 2007 Regulations relating to regenerated cellulose film ("RCF") (*regulations 10, 11 and 12*).

9. In particular, regulation 10 of these Regulations—

- (a) controls what substances may be used in the manufacture of RCF, which may vary according to whether or not it is coated with plastics (*paragraph (3)*);
- (b) regulates what substances may be used to manufacture plastic coatings for RCF, and under what conditions (*paragraph (4)*);
- (c) creates a conditional derogation from paragraph (3) in respect of substances used as colourants or adhesives in the manufacture of non-plastic coated RCF (*paragraph (5)*);

- (ch) yn creu troseddau o ran gwerthu, mewnfurio neu ddefnydd busnes o RCF nad yw'n cydymffurfio (*paragraffau (6) a (7)*); a
- (d) yn creu gofyniad amodol bod datganiad o gydymffurfedd deddfwriaethol gyda'r RCF pan gaiff ei marchnata cyn y cyfnod adwerthu (*paragraff (8)*).

10. Mae rheoliad 11 yn cymhwyso, i RCF sydd wedi ei araenu â phlastig, y rheolaethau presennol (sydd yn deillio o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC) ynglŷn ag ymfudo cyfansoddion deunyddiau ac eitemau plastig i fwyd, yn neilltuol drwy–

- (a) pennu terfynau ymfudo cyffredinol ar gyfer RCF sydd wedi ei araenu â phlastig (*paragraffau (1) a (2)*);
- (b) cymhwyso i RCF sydd wedi ei araenu â phlastig y terfynau ymfudo penodedig sy'n gymwys i sylweddau penodol a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau plastig (*paragraffau (3) a (4)*); ac
- (c) cymhwyso'r dulliau a'r gweithdrefnau a ragnodwyd ar gyfer gwirio cydymffurfedd â therfynau ymfudo (*paragraffau (5) a (6)*).

11. Mae rheoliad 12 yn cynnwys darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol sydd–

- (a) yn darparu amddiffyniad mewn perthynas ag RCF a gafodd ei weithgynhyrchu yn y Gymuned Ewropeaidd, neu ei fewnfurio iddi, cyn 29 Ionawr 2006; a
- (b) yn cadw'r amddiffyniadau sydd ar gael o dan Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd 1987 (O.S. 1987/1523) ar gyfer unrhyw RCF a gafodd ei weithgynhyrchu cyn 29 Ebrill 1994 ac sy'n dal mewn cylchrediad.

12. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau gweinyddol a darpariaethau gorfodi cyffredinol sydd–

- (a) yn pennu cosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn neu am beri rhwystr i rai sydd yn eu gorfodi (*rheoliad 13*);
- (b) yn dynodi awdurdodau gorfodi ar gyfer amrywiol swyddogaethau o dan y Rheoliadau (*rheoliad 14*);
- (c) yn darparu bod modd i unigolion sy'n gyfrifol am weithredoedd corff corfforaethol neu bartneriaeth Albanaidd gael eu herlyn ar y cyd am droseddau sydd wedi eu cyflawni gan y corff neu bartneriaeth hwnnw (*rheoliad 15*);
- (ch) yn darparu ar gyfer erlyn person sydd yn peri i drosedd gael ei chyflawni gan berson arall, boed achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn erbyn y troseddwr gwreiddiol ai peidio (*rheoliad 16*);

- (d) creates offences in relation to the sale, import or business use of non-compliant RCF (*paragraphs (6) and (7)*); and
- (e) creates a conditional requirement for RCF, when marketed prior to the retail stage, to be accompanied by a declaration of legislative compliance (*paragraph (8)*).

10. Regulation 11 applies to plastic coated RCF the existing controls (derived from Commission Directive 2002/72/EC) on migration of constituents of plastic materials and articles into food, in particular by–

- (a) specifying overall migration limits for plastic coated RCF (*paragraphs (1) and (2)*);
- (b) applying to plastic coated RCF the specific migration limits applicable to certain substances used in the manufacture of plastic materials and articles (*paragraphs (3) and (4)*); and
- (c) applying the prescribed methods and procedures for checking compliance with migration limits (*paragraphs (5) and (6)*).

11. Regulation 12 contains saving and transitional provisions which–

- (a) provide a defence in relation to RCF manufactured in or imported into the European Community before 29 January 2006; and
- (b) preserve the defences available under the Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1987 (S.I. 1987/1523) for any RCF manufactured before 29 April 1994 that may still be in circulation.

12. Part 5 contains general administrative and enforcement provisions which–

- (a) penalise contravention of these Regulations or obstruction of those enforcing them (*regulation 13*);
- (b) designate enforcement authorities for various functions under the Regulations (*regulation 14*);
- (c) provide that individuals responsible for the actions of a corporate body or a Scottish partnership may be co-prosecuted for offences committed by that body or partnership (*regulation 15*);
- (d) provide for the prosecution of a person who causes the commission of an offence by another person, whether or not proceedings are taken against the original offender (*regulation 16*);

- (d) yn pennu terfyn amser ar gyfer cychwyn erlyniad (*regulation 17*);
- (dd) yn darparu ar gyfer amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy yn erbyn cyhuddiad o drosedd o dan y Rheoliadau hyn (*rheoliad 18*);
- (e) yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth anfon sampl i'w dadansoddi (*rheoliad 19*);
- (f) yn darparu ar gyfer dadansoddiad o sampl gyfeiriol gan Labordy Cemegydd y Llywodraeth (*rheoliad 20*);
- (ff) yn cymhwyso darpariaethau penodol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn (*rheoliad 21*);
- (g) yn gwneud newid canlyniadol i Atodlen 1 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990 (O.S. 1990/2463; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2007/3252 (Cy. 287)) (*rheoliad 22*);
- (ng) yn gwneud newid canlyniadol i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/481 (Cy. 49)) (*rheoliad 23*);
- (h) yn diwygio'r diffiniad o "ingredient" yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2009/3377 (Cy. 299)) (*rheoliad 24*); ac
- (i) yn dirymu Rheoliadau 2007 (*rheoliad 25*).
- (e) specify a time limit for commencing a prosecution (*regulation 17*);
- (f) provide for a defence of due diligence to an offence under these Regulations (*regulation 18*);
- (g) specify the procedure to be followed when sending a sample for analysis (*regulation 19*);
- (h) make provision for a reference sample to be analysed by the Laboratory of the Government Chemist (*regulation 20*);
- (i) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 for the purposes of these Regulations (*regulation 21*);
- (j) make a consequential amendment to Schedule 1 to the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990 (S.I. 1990/2463; relevant amending instrument is S.I. 2007/3252 (W. 287)) (*regulation 22*);
- (k) make a consequential amendment to the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/481 (W. 49)) (*regulation 23*);
- (l) amend the definition of "ingredient" in the Food Labelling Regulations 1996 (S.I. 1996/1499; relevant amending instrument is S.I. 2009/3377 (W. 299)) (*regulation 24*); and
- (m) revoke the 2007 Regulations (*regulation 25*).

13. Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

13. A regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

2010 Rhif 2288 (Cy.200)

2010 No. 2288 (W.200)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd
(Cymru) 2010**

**The Materials and Articles in
Contact with Food (Wales)
Regulations 2010**

Gwnaed 15 Medi 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 17 Medi 2010
Yn dod i rym 20 Hydref 2010

Made 15 September 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 17 September 2010
Coming into force 20 October 2010

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Rhagarweiniol

Preliminary

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Cwmpas

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Scope

RHAN 2

PART 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac
Eitemau

General Requirements for Materials and Articles

4. Tramgwyddau o fynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 1935/2004
5. Y tramgwydd o fynd yn groes i Erthygl 4 yn Rheoliad 2023/2006
6. Tramgwyddau o fynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 450/2009
7. Awdurdodau cymwys

4. Offences of contravening specified provisions of Regulation 1935/2004
5. Offence of contravening Article 4 of Regulation 2023/2006
6. Offences of contravening specified provisions of Regulation 450/2009
7. Competent authorities

RHAN 3

PART 3

Y Gofynion ar gyfer Ffinyl Clorid

Requirements for Vinyl Chloride

8. Terfynau a therfynau ymfudo
9. Dulliau dadansoddi

8. Limits and migration limits
9. Methods of Analysis

RHAN 4

Y Gofynion ar gyfer Caen Cellwlos Atgynyrchiedig

10. Rheolaethau a therfynau
11. Terfynau ymfudo ar gyfer caen cellwlos atgynyrchiedig wedi'i araenu gyda phlastigion
12. Darpariaeth arbed ac amddiffyniad trosiannol

RHAN 5

Cyffredinol

13. Tramgwyddau a chosbau
14. Gorfodi
15. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol neu bartneriaethau Albanaidd
16. Tramgwyddau o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan drydydd parti
17. Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau
18. Amddiffyniadau cyffredinol
19. Y weithdrefn i'w dilyn pan fydd sampl i'w dadansoddi
20. Dadansoddi eilaidd gan Gemegydd y Llywodraeth
21. Cymhwyso darpariaethau amrywiol y Ddeddf
22. Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990
23. Diwygiad canlyniadol i Reoliadau 2009
24. Diwygiad i Reoliadau Labelu Bwyd 1996
25. Dirymu

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a), 2(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), sydd bellach wedi'u

PART 4

Requirements for Regenerated Cellulose Film

10. Controls and limits
11. Migration limits for regenerated cellulose film coated with plastics
12. Saving provision and transitional defence

PART 5

General

13. Offences and penalties
14. Enforcement
15. Offences by corporate bodies or Scottish partnerships
16. Offences due to the act or default of a third party
17. Time limit for prosecutions
18. General defences
19. Procedure where a sample is to be analysed
20. Secondary analysis by the Government Chemist
21. Application of various provisions of the Act
22. Consequential amendment to the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990
23. Consequential amendment to the 2009 Regulations
24. Amendment to the Food Labelling Regulations 1996
25. Revocation

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(2), 17(1) and (2), 26(1)(a), 2(a) and (3), 31 and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), which are now vested in

(1) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

(1) 1990 c.16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), "the 1999 Act". Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act, S.I. 2004/2990 and S.I. 2004/3279.

breinio ynddynt hwy(1), fel y'u darllenir ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at un o offerynnau'r UE neu at Atodiad i un o offerynnau'r UE a bennir yn rheoliad 2(3) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn neu'r Atodiad hwnnw fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2010, a deuant i rym ar 20 Hydref 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

-
- (1) Trosglwyddwyd swyddogaethau oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, mewn perthynas â Chymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwledig sydd â chyfrifoldeb yn eu tro dros iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac, mewn perthynas â'r Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol), i'r graddau maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac a drosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).
- (2) 1972 p.68. Mewnoddwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006, p.51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (2008 p.7).
- (3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

them(1), as read with paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(2).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for certain references to an EU instrument or to an Annex to an EU instrument specified in regulation 2(3) to be construed as references to that instrument or Annex as amended from time to time.

In accordance with section 48(4A) of the Food Safety Act 1990 Act they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

PART 1

Preliminary

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2010, and they come into force on 20 October 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

-
- (1) Functions formerly exercisable by "the Ministers" (being, in relation to England and Wales and acting jointly, the Minister of Agriculture, Fisheries and Food and the Secretaries of State respectively concerned with health in England and food and health in Wales and, in relation to Scotland, the Secretary of State) so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act, and subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).
- (2) 1972 c.68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (2006, c.51) and amended by Part 1 of Schedule 1 to the European Union (Amendment) Act 2008 (2008 c.7).
- (3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468 with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny - Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr ag sydd i "food authority" yn adran 5(1A) o'r Ddeddf ond nid yw'n cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), o ran unrhyw ddsbarth iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "caen cellwlos atgynrchiedig" ("*regenerated cellulose film*") yw deunydd haenen denau a gafwyd o gellwlos a goethwyd sy'n deillio o bren neu gotwm nas ailgylchwyd, gydag ychwanegiad o sylweddau addas neu beidio, naill ai yn y màs neu ar un arwyneb neu'r ddau arwyneb, ond nad yw'n cynnwys casinau synthetig o gellwlos atgynrchiedig;

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/72/EC" ("*Directive 2002/72/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(2);

ystyr "Cyfarwyddeb 2007/42/EC" ("*Directive 2007/42/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau a wnaed o gaen cellwlos atgynrchiedig ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(3);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu roi nwydd ar ddangos i'w werthu, neu fod mewn meddiant arno er mwyn ei werthu, a dylid dehongli "gwerthiant" ("*sale*") yn unol â hynny;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnforio yn ystod busnes, o fan heblaw Gwladwriaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ;

(1) 1984 t.22.

(2) OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18. Cafodd y Gyfarwyddeb hon ei chywiro gan gorigendwm (OJ Rhif L39, 13.2.2003, t.1), a chafodd ei diwygio gan Gyfarwydebau'r Comisiwn 2004/1/EC (OJ Rhif L7, 13.1.2004, t.45), 2004/19/EC (OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8), 2005/79/EC (OJ Rhif L302, 19.11.2005, t.35), 2007/19/EC (a gyhoeddwyd mewn ffurf ddiwygiedig a chywiriedig yn OJ Rhif L97, 12.4.2007, t.50), 2008/39/EC (OJ Rhif L63, 7.3.2008, t.6) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 975/2009 (OJ Rhif L274, 20.10.2009, t.3).

(3) OJ Rhif L172, 30.6.2007, t.71. Yr oedd y Gyfarwyddeb hon yn diddymu ac yn cydgrynhoi a hynny heb ddiwygio pellach Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/10/EEC fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC.

Interpretation

2.–(1) In these Regulations–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the 2009 Regulations" ("*Rheoliadau 2009*") means the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2009(1);

"Directive 2002/72/EC" ("*Cyfarwyddeb 2002/72/EC*") means Commission Directive 2002/72/EC relating to plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs(2);

"Directive 2007/42/EC" ("*Cyfarwyddeb 2007/42/EC*") means Commission Directive 2007/42/EC relating to materials and articles made of regenerated cellulose film intended to come into contact with foodstuffs(3);

"Regulation 1935/2004" ("*Rheoliad 1935/2004*") means Regulation (EC) No. 1935/2004 of the European Parliament and of the Council on materials and articles intended to come into contact with food and repealing Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC(4);

"Regulation 2023/2006" ("*Rheoliad 2023/2006*") means Commission Regulation (EC) No. 2023/2006 on good manufacturing practice for materials and articles intended to come into contact with food(5);

"Regulation 450/2009" ("*Rheoliad 450/2009*") means Commission Regulation (EC) No. 450/2009 on active and intelligent materials and articles intended to come into contact with food(6);

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any person, whether or not an officer of the authority having responsibility for execution and enforcement under regulation 14, who is authorised by that authority in writing to act in matters arising under these Regulations;

(1) S.I. 2009/481 (W. 49).

(2) OJ No. L220, 15.8.2002, p.18. This Directive was corrected by a corrigendum (OJ No. L39, 13.2.2003, p.1), and has been amended by Commission Directives 2004/1/EC (OJ No. L7, 13.1.2004, p.45), 2004/19/EC (OJ No. L71, 10.3.2004, p.8), 2005/79/EC (OJ No. L302, 19.11.2005, p.35), 2007/19/EC (published in revised and corrected form in OJ No. L97, 12.4.2007, p.50), 2008/39/EC (OJ No. L63, 7.3.2008, p.6) and Commission Regulation (EC) No. 975/2009 (OJ No. L274, 20.10.2009, p.3).

(3) OJ No. L172, 30.6.2007, p.71. This Directive repealed and consolidated without further amendment Commission Directive 93/10/EEC as last amended by Commission Directive 2004/14/EC.

(4) OJ No. L338, 13.11.2004, p.4, amended by Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

(5) OJ No. L384, 29.12.2006, p.75, amended by Commission Regulation (EC) No.282/2008 (OJ No. L86, 28.3.2008, p.9).

(6) OJ No. L135, 30.5.2009, p.3.

mae "paratoad" ("*preparation*") yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw ffurf ar driniaeth neu broses, a dylid dehongli "paratoi" ("*prepare*") yn unol â hynny;

ystyr "plastigion" ("*plastics*") yw'r deunyddiau a'r eitemau hynny y mae Cyfarwyddeb 2002/72/EC yn gymwys iddynt;

ystyr "Rheoliad 1935/2004" ("*Regulation 1935/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC ac 89/109/EEC(1);

ystyr "Rheoliad 2023/2006" ("*Regulation 2023/2006*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 ar arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(2);

ystyr "Rheoliad 450/2009" ("*Regulation 450/2009*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(3);

ystyr "Rheoliadau 2009" ("*the 2009 Regulations*") yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009(4); ac

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson, boed yn swyddog i'r awdurdod neu beidio, sydd â chyfrifoldeb dros weithredu a gorfodi o dan reoliad 14, sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 1935/2004, Rheoliad 2023/2006 neu Reoliad 450/2009 yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Rheoliadau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Reoliad 2023/2006 neu at Atodiad i Gyfarwyddeb 2002/72/EC neu i Gyfarwyddeb 2007/42/EC yn gyfeiriad at y Rheoliad hwnnw neu'r Atodiad hwnnw fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the same meaning as in section 5(1A) of the Act but does not include a port health authority;

"import" ("*mewnforio*") means import in the course of a business from a place other than an EEA State;

"plastics" ("*plastigion*") means those materials and articles to which Directive 2002/72/EC applies;

"port health authority" ("*awdurdod iechyd porthladd*") means in relation to any port health district constituted by order under section 2(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), a port health authority for that district constituted by order under section 2(4) of that Act;

"preparation" ("*paratoad*") includes manufacture and any form of treatment or process, and "prepare" ("*paratoi*") is to be construed accordingly;

"regenerated cellulose film" ("*caen cellwlos atgynrychiedig*") means a thin sheet material obtained from refined cellulose derived from unrecycled wood or cotton, with or without the addition of suitable substances, either in the mass or on one or both surfaces, but does not include synthetic casings of regenerated cellulose; and

"sell" ("*gwerthu*") includes offer or expose for sale or have in possession for sale, and "sale" ("*gwerthiant*") is to be construed accordingly.

(2) Expressions used in these Regulations and in Regulation 1935/2004, Regulation 2023/2006 or Regulation 450/2009 bear the same meaning in these Regulations as they bear in those Regulations.

(3) Any reference to Regulation 2023/2006 or to an Annex to Directive 2002/72/EC or Directive 2007/42/EC is a reference to that Regulation or that Annex as amended from time to time.

(1) OJ Rhif L338, 13.11.2004, t.4, a ddiwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) OJ Rhif L384, 29.12.2006, t.75, a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2008 (OJ Rhif L86, 28.3.2008, t.9).

(3) OJ Rhif L135, 30.5.2009, t.3.

(4) O.S. 2009/481 (Cy. 49).

(1) 1984 c.22.

Cwmpas

3. Nid yw darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r deunyddiau a'r eitemau hynny sydd wedi eu nodi yn is-baragraffau (a), (b) ac (c) o Erthygl 1(3) o Reoliad 1935/2004.

RHAN 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau

Tramgwyddau o fynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 1935/2004

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 27 o Reoliad 1935/2004, bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Rheoliad hwnnw yn euog o dramgwydd—

- (a) Erthygl 3 (gofynion cyffredinol);
- (b) Erthygl 4 (gofynion penodedig ar gyfer deunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus);
- (c) Erthygl 11(4) a (5) (darpariaethau'n ymwneud ag awdurdodaeth ar lefel yr UE);
- (ch) Erthygl 15(1), (3), (4), (7) ac (8) (labelu);
- (d) Erthygl 16(1) (datganiad cydymffurfio); neu
- (dd) Erthygl 17(2) (y gallu i olrhain).

Y tramgwydd o fynd yn groes i Erthygl 4 yn Rheoliad 2023/2006

5. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â gofynion Erthygl 4 (cydymffurfio ag arfer gweithgynhyrchu da) yn Rheoliad 2023/2006 yn euog o dramgwydd.

Tramgwyddau o fynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 450/2009

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 14 o Reoliad 450/2009, bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Rheoliad hwnnw yn euog o dramgwydd—

- (a) Erthygl 4 (gosod deunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus ar y farchnad);
- (b) Erthygl 5(1) (rhestr o sylweddau y caniateir eu defnyddio mewn elfennau gweithredol a deallus) fel y'i darllenir gydag Erthygl 5(2);
- (c) Erthygl 9(1) (sy'n ymwneud â chategorïau penodol o sylweddau nad ydynt ar y rhestr a awdurdodwyd), fel y'i darllenir gydag Erthygl 9(2) a (3);
- (ch) Erthygl 10(1) (sy'n ymwneud â chategori o sylweddau nad ydynt ar y rhestr a awdurdodwyd), fel y'i darllenir gydag Erthygl 10(2);

Scope

3. The provisions of these Regulations do not apply to those materials and articles specified in subparagraphs (a), (b) and (c) of Article 1(3) of Regulation 1935/2004.

PART 2

General Requirements for Materials and Articles

Offences of contravening specified provisions of Regulation 1935/2004

4. Subject to the transitional provisions contained in Article 27 of Regulation 1935/2004, any person who contravenes any of the following provisions of that Regulation is guilty of an offence—

- (a) Article 3 (general requirements);
- (b) Article 4 (special requirements for active and intelligent materials and articles);
- (c) Article 11(4) and (5) (provisions relating to authorisation at EU level);
- (d) Article 15(1), (3), (4), (7) and (8) (labelling);
- (e) Article 16(1) (declaration of compliance); or
- (f) Article 17(2) (traceability).

Offence of contravening Article 4 of Regulation 2023/2006

5. Any person who fails to comply with the requirements of Article 4 (conformity with good manufacturing practice) of Regulation 2023/2006 is guilty of an offence.

Offences of contravening specified provisions of Regulation 450/2009

6. Subject to the transitional provisions contained in Article 14 of Regulation 450/2009, any person who contravenes any of the following provisions of that Regulation is guilty of an offence—

- (a) Article 4 (placing on the market of active and intelligent materials and articles);
- (b) Article 5(1) (list of substances that may be used in active and intelligent components) as read with Article 5(2);
- (c) Article 9(1) (relating to certain categories of substances not on the authorised list), as read with Article 9(2) and (3);
- (d) Article 10(1) (relating to a category of substances not on the authorised list), as read with Article 10(2);

- (d) Erthygl 11(1) a (2) (rheolau ar labelu);
- (dd) Erthygl 12 (datganiad cydymffurfio yn ofynnol); neu
- (e) Erthygl 13 (gofynion yn ymwneud â dogfennau atodol).

Awdurdodau cymwys

7.–(1) Y cyrff canlynol a ddynodir fel yr awdurdodau cymwys at y dibenion yn narpariaethau Rheoliad 1935/2004 a nodir isod–

- (a) mewn cysylltiad ag Erthyglau 9 a 13, yr Asiantaeth Safonau Bwyd; a
- (b) mewn cysylltiad ag Erthyglau 16(1) a 17(2), yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r awdurdod sydd â chyfrifoldeb am orfodi yn unol â rheoliad 14(1).

(2) Yr awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 6(2) a 7(3) o Reoliad 2023/2006 yw pob awdurdod bwyd yn ei ardal.

(3) Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthygl 13 o Reoliad 450/2009 yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r awdurdod sydd â chyfrifoldeb am orfodi yn unol â rheoliad 14(1).

- (e) Article 11(1) and (2) (rules on labelling);
- (f) Article 12 (requirement for a declaration of compliance); or
- (g) Article 13 (requirements relating to supporting documentation).

Competent authorities

7.–(1) The following bodies are designated as the competent authorities for the purposes of the provisions of Regulation 1935/2004 specified below–

- (a) in respect of Articles 9 and 13, the Food Standards Agency; and
- (b) in respect of Articles 16(1) and 17(2), the Food Standards Agency and the authority having responsibility for enforcement pursuant to regulation 14(1).

(2) The competent authority for the purposes of Article 6(2) and 7(3) of Regulation 2023/2006 is each food authority in its area.

(3) The competent authorities for the purposes of Article 13 of Regulation 450/2009 are the Food Standards Agency and the authority having responsibility for enforcement pursuant to regulation 14(1).

RHAN 3

Y Gofynion ar gyfer Fynyl Clorid

Terfynau a therfynau ymfudo

8.–(1) O ran deunyddiau ac eitemau a weithgynhrychir â pholymerau neu gydbolymerau finyl clorid–

- (a) rhaid iddynt beidio â chynnwys monomer finyl clorid mewn mesur sy'n fwy nag 1 miligram y cilogram o'r deunydd neu eitem fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 9(1); a
- (b) rhaid iddynt gael eu gweithgynhyrchu yn y fath fodd nad ydynt yn trosglwyddo i fwydydd y maent mewn cysylltiad â hwy unrhyw fesur o finyl clorid sy'n fwy na 0.01 miligram o finyl clorid y cilogram o fwyd fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 9(2).

(2) Ni chaiff neb–

- (a) gwerthu;
- (b) mewnfario; nac
- (c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw ddeunydd neu eitem nad yw'n cydymffurfio â pharagraff (1).

PART 3

Requirements for Vinyl Chloride

Limits and migration limits

8.–(1) Materials and articles which are manufactured with vinyl chloride polymers or copolymers–

- (a) must not contain vinyl chloride monomer in a quantity exceeding 1 milligram per kilogram of the material or article as measured by the method of analysis specified in regulation 9(1); and
- (b) must be manufactured in such a way that they do not transfer to foods with which they are in contact any quantity of vinyl chloride exceeding 0.01 milligrams of vinyl chloride per kilogram of food as measured by the method of analysis specified in regulation 9(2).

(2) No person may–

- (a) sell;
- (b) import; or
- (c) use in the course of a business in connection with the storage, preparation, packaging, selling or serving of food,

any material or article that does not comply with paragraph (1).

Dulliau Dadansoddi

9.–(1) Y dull a ddefnyddir wrth ddadansoddi unrhyw sampl i bwrpas canfod faint o fonomer finyl clorid sydd yn bresennol yn y deunydd neu eitem, er mwyn dyfarnu a yw'n cydymffurfio â rheoliad 8(1)(a), yw'r dull a nodir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 80/766/EEC sydd yn pennu dull y Gymuned o ddadansoddi er mwyn rheoli'n swyddogol lefel y monomer finyl clorid mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(1).

(2) Y dull a ddefnyddir wrth ddadansoddi unrhyw fwyd i bwrpas canfod faint o finyl clorid sydd yn bresennol yn y bwyd, er mwyn dyfarnu a yw deunydd neu eitem sydd mewn cysylltiad â'r bwyd, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r bwyd, yn cydymffurfio â rheoliad 8(1)(b), yw'r dull a nodir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 81/432/EEC sydd yn pennu dull y Gymuned o ddadansoddi er mwyn rheoli'n swyddogol y finyl clorid a ryddheir i fwydydd gan ddeunyddiau ac eitemau(2).

RHAN 4

Y Gofynion ar gyfer Caen Cellwlos Atgynyrchiedig

Rheolaethau a therfynau

10.–(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i gaen cellwlos atgynyrchiedig–

- (a) sydd yn ddo'i hun yn ffurfio cynnyrch gorffenedig; neu
- (b) sy'n rhan o gynnyrch gorffenedig sy'n cynnwys deunyddiau eraill,

ac y bwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwyd, neu sydd, drwy gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw, yn dod i gysylltiad â bwyd.

(2) Ac eithrio ym mharagraff (4), mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliad hwn at Atodiad II yn gyfeiriad at Atodiad II i Gyfarwyddeb 2007/42/EC.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) a rheoliad 12, ni chaiff unrhyw berson, wrth weithgynhyrchu unrhyw gaen cellwlos atgynyrchiedig y bwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwyd, ddefnyddio unrhyw sylwedd neu grŵp o sylweddau heblaw'r sylweddau a enwir neu a ddisgrifir–

- (a) yng ngholofn gyntaf (enwau) Atodiad II (rhestr o sylweddau a awdurdodwyd wrth weithgynhyrchu caen cellwlos atgynyrchiedig) yn achos–
 - (i) caen heb ei araenu; neu

(1) OJ Rhif L213, 16.8.80, t.42.

(2) OJ Rhif L167, 24.6.81, t.6.

Methods of Analysis

9.–(1) The method to be used in analysing any sample for the purpose of establishing the quantity of vinyl chloride monomer present in the material or article in order to determine whether it complies with regulation 8(1)(a) is the method specified in the Annex to Commission Directive 80/766/EEC laying down the Community method of analysis for the official control of the vinyl chloride monomer level in materials and articles which are intended to come into contact with foodstuffs(1).

(2) The method to be used in analysing any food for the purpose of establishing the quantity of vinyl chloride present in the food in order to determine whether a material or article which is or has been in contact with the food complies with regulation 8(1)(b) is the method specified in the Annex to Commission Directive 81/432/EEC laying down the Community method of analysis for the official control of vinyl chloride released by materials and articles into foodstuffs(2).

PART 4

Requirements for Regenerated Cellulose Film

Controls and limits

10.–(1) This Part applies to regenerated cellulose film which–

- (a) constitutes a finished product in itself; or
- (b) is part of a finished product containing other materials,

and is intended to come into contact with food or, by being used for that purpose, does come into contact with food.

(2) Except in paragraph (4), any reference in this regulation to Annex II is a reference to Annex II to Directive 2007/42/EC.

(3) Subject to paragraph (5) and regulation 12, no person may manufacture any regenerated cellulose film intended to come into contact with food using any substance or group of substances other than the substances named or described–

- (a) in the first column (denominations) of Annex II (list of substances authorised in the manufacture of regenerated cellulose film) in the case of–
 - (i) uncoated film; or

(1) OJ No. L213, 16.8.80, p.42.

(2) OJ No. L167, 24.6.81, p.6.

- (ii) caen wedi ei araenu os yw'r araen yn deillio o gellwlos;
- (b) yng ngholofn gyntaf Rhan Gyntaf Atodiad II (caen cellwlos atgynyrchiedig heb araen) yn achos caen sydd i'w araenu, pan fydd yr araen yn cynnwys plastigion,

ac ym mhob achos, mewn unrhyw fodd nad yw'n unol â'r amodau a'r cyfyngiadau a nodir yn y cofnod cyfatebol yn ail golofn y Rhan briodol o Atodiad II, fel y'i darllenir gyda'r rhaglith i'r Atodiad hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 12, ni chaiff unrhyw berson, wrth weithgynhyrchu unrhyw araen sydd i'w rhoi ar gaen y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b), ddefnyddio unrhyw sylwedd neu grŵp o sylweddau ar wahân i'r rhai a restrir yn Atodiad II, III neu IV i Gyfarwyddeb 2002/72/EC, ac ni chaiff eu defnyddio mewn unrhyw ddull nad yw'n unol â'r gofynion, y cyfyngiadau a'r manylion priodol a gynhwysir yn yr Atodiadau hynny ac yn Rheoliadau 2009.

(5) Caniateir defnyddio sylweddau heblaw'r rhai a restrir yn Atodiad II fel lliwyddion neu adlynyddion wrth weithgynhyrchu unrhyw gaen y mae paragraff (3)(a) yn gymwys iddo, ar yr amod bod caen o'r fath yn cael ei weithgynhyrchu yn y fath fodd ag i beidio â throsglwyddo unrhyw liwydd neu adlyn i fwyd mewn unrhyw faint canfyddadwy.

- (6) Yn ddarostyngedig i reoliad 12 ni chaiff neb—
 - (a) gwerthu;
 - (b) mewnfario; na
 - (c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw gaen cellwlos atgynyrchiedig a weithgynhyrchwyd yn groes i ofynion paragraffau (3) neu (4), neu sy'n methu â chydymffurfio â pharagraff (8).

(7) Ni chaiff neb, wrth gynnal busnes, ddefnyddio mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd—

- (a) pan fo'r bwyd yn cynnwys dŵr sydd yn ffisegol rydd ar yr wyneb, unrhyw gaen cellwlos atgynyrchiedig sy'n cynnwys ether bis(2-hydrocsiethyl) neu ethanediol; neu
- (b) unrhyw gaen gellwlos atgynyrchiedig yn y fath fodd fel y bydd unrhyw wyneb printiedig o'r caen hwnnw'n dod i gysylltiad â'r bwyd.

(8) Yn ystod unrhyw gam marchnata heblaw'r cam adwerthu, rhaid i unrhyw ddeunydd neu eitem sydd wedi ei wneud o gaen cellwlos atgynyrchiedig, oni bai ei fod wedi ei fwriadu o ran natur i ddod i gysylltiad â bwyd, ddod gyda datganiad ysgrifenedig sydd yn ardystio ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys iddo.

- (ii) coated film where the coating is derived from cellulose;
- (b) in the first column of the First Part (uncoated regenerated cellulose film) of Annex II in the case of film to be coated, where the coating is to consist of plastics,

and in each case other than in accordance with the conditions and restrictions specified in the corresponding entry in the second column of the appropriate Part of Annex II, as read with the preamble to that Annex.

(4) Subject to regulation 12, no person may manufacture any coating to be applied to film referred to in paragraph (3)(b) using any substance or group of substances other than those listed in Annex II, III or IV to Directive 2002/72/EC and other than in accordance with the appropriate requirements, restrictions and specifications contained in those Annexes and in the 2009 Regulations.

(5) Substances other than those listed in Annex II may be used as colourants or adhesives in the manufacture of any film to which paragraph (3)(a) applies, provided that such film is manufactured in such a way that it does not transfer any colourant or adhesive to food in any detectable quantity.

- (6) Subject to regulation 12 no person may—
 - (a) sell;
 - (b) import; or
 - (c) use in the course of a business in connection with the storage, preparation, packaging, sale or service of food,

any regenerated cellulose film which has been manufactured in contravention of the requirements of paragraphs (3) or (4), or which fails to comply with paragraph (8).

(7) No person may, in the course of a business, use in connection with the storage, preparation, packaging, sale or service of food—

- (a) where the food contains water physically free at the surface, any regenerated cellulose film containing bis(2-hydroxyethyl) ether or ethanediol; or
- (b) any regenerated cellulose film in such a way that any printed surface of that film comes into contact with the food.

(8) Any material or article made of regenerated cellulose film that is not by its nature clearly intended to come into contact with food must, at a marketing stage other than the retail stage, be accompanied by a written declaration attesting that it complies with the legislation applicable to it.

Terfynau ymfudo ar gyfer caen cellwlos atgynyrchiedig wedi'i araenu gyda phlastigion

11.– (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson weithgynhyrchu neu fewnforio unrhyw ddeunydd neu eitem sydd wedi ei wneud â chaen cellwlos atgynyrchiedig wedi ei araenu â phlastigion ac–

- (a) y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd; a
- (b) y gellir trosglwyddo eu cyfansoddion i fwyd mewn meintiau sy'n fwy na therfyn ymfudo cyffredinol o 10 miligram y decimetr sgwâr o arwyneb y deunydd neu'r eitem sydd mewn cysylltiad â bwyd.

(2) Yn achos unrhyw ddeunydd neu eitem a wnaed â chaen cellwlos atgynyrchiedig wedi ei araenu â phlastigion–

- (a) sydd yn gynhwysydd, neu'n debyg i gynhwysydd, neu y gellir ei lenwi i gynhwysedd o ddim llai na 500 mililitr a dim mwy na 10 litr;
- (b) y gellir ei llenwi a'i bod yn anymarferol i amcangyfrif arwynebedd yr wyneb mewn cysylltiad â bwyd; neu
- (c) sy'n gap, gasged, caead neu ddyfais debyg ar gyfer selio,

y terfyn ymfudo cyffredinol fydd 60 miligram o gyfansoddion yn cael eu trosglwyddo ar gyfer pob cilogram o fwyd.

(3) Ni chaiff unrhyw berson weithgynhyrchu neu fewnforio unrhyw ddeunydd neu eitem wedi ei wneud â chaen cellwlos atgynyrchiedig sydd wedi ei araenu â phlastigion a weithgynhyrwyd ag unrhyw sylwedd a restrir yn Adran A neu B o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/72/EC (monomerau a awdurdodir, a sylweddau cychwyn eraill) ac–

- (a) y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd; a
- (b) y gellir trosglwyddo eu cyfansoddion i fwyd mewn meintiau sy'n fwy na'r terfynau ymfudo penodol a restrir yng ngholofn 4 o'r Adrannau hynny, fel y'u darllenir gyda'r rhagarweiniad cyffredinol i'r Atodiad hwnnw.

(4) Pan fo'r terfyn ymfudo penodedig ar gyfer sylwedd a grybwyllir ym mharagraff (3) yn cael ei fynegi mewn miligramau fesul cilogram, yn achos caen cellwlos atgynyrchiedig wedi ei araenu â phlastigion–

- (a) sydd yn gynhwysydd, neu'n debyg i gynhwysydd, neu y gellir ei lenwi i gynhwysedd o lai na 500 mililitr neu fwy na 10 litr; neu
- (b) na ellir ei lenwi neu ei bod yn anymarferol i amcangyfrif y berthynas rhwng arwynebedd wyneb y caen a maint y bwyd sydd mewn cysylltiad ag ef,

Migration limits for regenerated cellulose film coated with plastics

11.–(1) Subject to paragraph (2), no person may manufacture or import any material or article made with regenerated cellulose film coated with plastics which–

- (a) is intended to come into contact with food; and
- (b) is capable of transferring its constituents to food in quantities exceeding an overall migration limit of 10 milligrams per square decimetre of the surface of the material or article in contact with food.

(2) In the case of any material or article made with regenerated cellulose film coated with plastics which–

- (a) is or is comparable to a container or which can be filled to a capacity of not less than 500 millilitres and not more than 10 litres;
- (b) can be filled and for which it is impracticable to estimate the surface area in contact with food; or
- (c) is a cap, gasket, stopper or similar device for sealing,

the overall migration limit is to be 60 milligrams of constituents transferred per kilogram of food.

(3) No person may manufacture or import any material or article made with regenerated cellulose film coated with plastics manufactured with any substance listed in Section A or B of Annex II to Directive 2002/72/EC (authorised monomers and other starting substances) which–

- (a) is intended to come into contact with food; and
- (b) is capable of transferring its constituents to food in quantities exceeding the specific migration limits set out in column 4 of those Sections as read with the general introduction to that Annex.

(4) Where the specific migration limit for a substance mentioned in paragraph (3) is expressed in milligrams per kilogram, in the case of regenerated cellulose film coated with plastics which–

- (a) is or is comparable to a container or which can be filled to a capacity of less than 500 millilitres or more than 10 litres; or
- (b) cannot be filled or for which it is impracticable to estimate the relationship between the surface area of the film and the quantity of food in contact with it,

mae'r terfyn ymfudo i gael ei rannu â'r ffactor trawsnewid o 6 er mwyn ei fynegi mewn miligramau o gyfansoddion a drosglwyddir fesul decimetr sgwâr o'r deunydd neu'r eitem sydd mewn cysylltiad â bwyd.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae'r gwiriad o gydymffurfiaid â therfynau ymfudo i'w gynnal yn unol â darpariaethau Atodlenni 2 a 3 i Reoliadau 2009, fel y'u darllenir gyda rheoliad 13 o'r Rheoliadau hynny ac at ddibenion y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at ddeunydd neu eitem blastig i gael ei ddechongli fel cyfeiriad at gaen cellwlos atgynrychiedig wedi ei araenu â phlastig.

(6) Nid yw paragraff (5) yn gymwys mewn unrhyw amgylchiad y mae rheoliad 9 yn gymwys iddo.

Darpariaeth arbed ac amddiffyniad trosiannol

12. Mewn unrhyw achos am dramgwydd o fynd yn groes i reoliad 10(3), (4), (6) neu (7), neu reoliad 11(1) neu (3) y mae profi'r canlynol yn amddiffyniad—

- (a) digwyddodd y weithred sy'n ffurfio'r tramgwydd mewn cysylltiad â deunydd neu eitem a wnaed â chaen cellwlos atgynrychiedig a gafodd ei weithgynhyrchu yn yr Undeb Ewropeaidd neu ei mewnforio iddo cyn 29 Ionawr 2006; a
- (b) ni fyddai'r weithred sy'n ffurfio'r tramgwydd wedi bod yn dramgwydd o dan y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd 1987(1) fel yr oeddynt yn union cyn i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005 ddod i rym(2).

RHAN 5

Cyffredinol

Tramgwyddau a chosbau

13.—(1) Mae unrhyw berson—

- (a) sydd yn mynd yn groes i ddarpariaethau rheoliad 8, 10(3), (4), (6), (7) neu (8) neu 11(1) neu (3);
- (b) sydd yn rhwystro'n fwriadol unrhyw berson sy'n gweithredu i gyflawni Rheoliad 1935/2004, Rheoliad 2023/2006, Rheoliad 450/2009 neu'r Rheoliadau hyn, neu'n methu heb esgus rhesymol â darparu unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'r person hwnnw'n eu ceisio'n rhesymol; neu

(1) O.S. 1987/1523.

(2) O.S. 2005/1647 (Cy. 128). Cafodd y Rheoliadau hynny eu diwygio'n ddiweddarach gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) ac O.S. 2006/2982 (Cy. 273), ond ni wnaeth yr un o'r offerynnau hynny ddiwygiadau sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth hon.

the migration limit is to be divided by the conversion factor of 6 in order to express it in milligrams of constituents transferred per square decimetre of the material or article in contact with food.

(5) Subject to paragraph (6), the verification of compliance with migration limits is to be conducted in accordance with the provisions of Schedules 2 and 3 to the 2009 Regulations as read with regulation 13 of those Regulations and for the purposes of this paragraph any reference in those provisions to a plastic material or article is to be construed as a reference to regenerated cellulose film coated with plastic.

(6) Paragraph (5) does not apply in any circumstance to which regulation 9 applies.

Saving provision and transitional defence

12. In any proceedings for an offence of contravening regulation 10(3), (4), (6) or (7), or regulation 11(1) or (3) it is a defence to prove that—

- (a) the act constituting the offence was committed in relation to a material or article made with regenerated cellulose film which was manufactured in, or imported into, the European Union before 29 January 2006; and
- (b) the act constituting the offence would not have constituted an offence under the Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1987(1) as they stood immediately before the coming into force of the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2005(2).

PART 5

General

Offences and penalties

13.—(1) Any person who—

- (a) contravenes the provisions of regulation 8, 10(3), (4), (6), (7) or (8) or 11(1) or (3);
- (b) intentionally obstructs any person acting in the execution of Regulation 1935/2004, Regulation 2023/2006, Regulation 450/2009 or these Regulations or, without reasonable excuse, fails to provide any assistance or information that person may reasonably require; or

(1) S.I. 1987/1523.

(2) S.I. 2005/1647 (W. 128). Those Regulations were subsequently amended by S.I. 2005/3254 (W. 247) and S.I. 2006/2982 (W. 273), but neither of those instruments made amendments that are relevant to this provision.

- (c) sydd yn darparu'n ymwybodol neu'n fyrbwyll wybodaeth sydd yn anwir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn perthnasol, mewn cydymffurfiad honedig ag unrhyw ofyniad a grybwyllir yn is-baragraff (b),

yn euog o dramgwydd.

(2) Mae unrhyw berson sydd yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored—

- (a) yn achos tramgwydd a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) neu (c) neu yn rheoliad 4, 5 neu 6—
- (i) o'i gollfarnu drwy ddiad, i ddirwy, neu i garchariad am dymor o ddim mwy na dwy flynedd, neu'r ddau, neu
- (ii) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy o ddim mwy na'r uchafswm statudol, neu i dymor yng ngharchar o ddim mwy na 6 mis, neu'r ddau; a
- (b) yn achos tramgwydd a grybwyllir ym mharagraff (1)(b) o'i gollfarnu'n ddiannod i dymor yng ngharchar o ddim mwy na 3 mis, neu i ddirwy o ddim mwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r ddau.

(3) Nid oes unrhyw beth ym mharagraff (1)(b) i'w ddehongli fel gofyniad ar unrhyw berson i ateb unrhyw gwestiwn neu roi unrhyw wybodaeth os gallai ei hunan-argyhuddo drwy wneud hynny.

Gorfodi

14.—(1) Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd yn ei ddosbarth weithredu a gorfodi—

- (a) y darpariaethau yn Rheoliad 1935/2004 a bennir yn rheoliad 4;
- (b) y darpariaethau yn Rheoliad 450/2009 a bennir yn rheoliad 6; ac
- (c) ac eithrio mewn perthynas â'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3), y Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd weithredu a gorfodi darpariaethau—

- (a) Erthyglau 16(1) a 17(2) o Reoliad 1935/2004; a
- (b) Erthygl 13 o Reoliad 450/2009.

(3) Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal weithredu a gorfodi'r darpariaethau yn Rheoliad 2023/2006 a bennir yn rheoliad 5.

Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol neu bartneriaethau Albanaidd

15.—(1) Pan brofir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol, wedi ei gyflawni gyda chydysyniad neu gydlynllwyn

- (c) in purported compliance with any requirement mentioned in sub-paragraph (b), knowingly or recklessly supplies information that is false or misleading in any material particular,

is guilty of an offence.

(2) Any person guilty of an offence under these Regulations is liable—

- (a) in the case of an offence mentioned in paragraph (1)(a) or (c) or in regulation 4, 5 or 6—
- (i) on conviction on indictment to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both, or
- (ii) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum or to a term of imprisonment not exceeding 6 months or both; and
- (b) in the case of an offence mentioned in paragraph (1)(b) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding 3 months or to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or both.

(3) Nothing in paragraph (1)(b) is to be construed as requiring any person to answer any question or give any information if to do so might incriminate him or her.

Enforcement

14.—(1) Each food authority in its area and each port health authority in its district must execute and enforce—

- (a) the provisions of Regulation 1935/2004 specified in regulation 4;
- (b) the provisions of Regulation 450/2009 specified in regulation 6; and
- (c) except in relation to the provisions referred to paragraph (3), these Regulations.

(2) The Food Standards Agency may also execute and enforce the provisions of—

- (a) Articles 16(1) and 17(2) of Regulation 1935/2004; and
- (b) Article 13 of Regulation 450/2009.

(3) Each food authority in its area must execute and enforce the provisions of Regulation 2023/2006 specified in regulation 5.

Offences by corporate bodies or Scottish partnerships

15.—(1) Where an offence under these Regulations which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or

unrhyw un o'r canlynol, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw un o'r canlynol—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforaethol, neu
- (b) unrhyw berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath,

bernir bod y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac yn agored i achos cyfreithiol ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan brofir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, a gyflawnwyd gan bartneriaeth Albanaidd, wedi ei gyflawni gyda chydysyniad neu gydgyllwyn partner, neu ei bod i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, bernir bod y partner hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac yn agored i achos cyfreithiol ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

Tramgwyddau o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan drydydd parti

16. Pan fo unrhyw berson yn cyflawni tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred unrhyw berson arall, y person arall hwnnw sydd yn euog o'r tramgwydd; a chaniateir i berson gael ei gyhuddo a'i gollfarnu o'r tramgwydd p'un a ddygir achos cyfreithiol yn erbyn y person a grybwyllwyd gyntaf ai peidio.

Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau

17. Ni chaniateir cychwyn unrhyw erlyniad am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i dair blynedd fynd heibio ers cyflawni'r tramgwydd neu ar ôl i un flwyddyn fynd heibio ers i'r erlynydd ganfod y tramgwydd, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Amddiffyniadau cyffredinol

18.—(1) Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, mae'n amddiffyniad, yn ddarostyngedig i baragraff (5), i'r person a gyhuddir ("y cyhuddedig") brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi ymarfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r tramgwydd ganddo neu gan berson a oedd dan ei reolaeth.

(2) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd paragraff (1), cymerir bod person a gyhuddir o dramgwydd o dan reoliad 4, 6(a) i (dd) neu 13(1)(a) ac—

- (a) na wnaeth baratoi'r deunydd neu eitem yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni mewn cysylltiad ag ef; ac na wnaeth ychwaith
- (b) ei fewnforio i'r Deyrnas Unedig,

connivance of or to be attributable to any neglect on the part of—

- (a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or
- (b) any person purporting to act in such a capacity,

that individual as well as the body corporate is deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where an offence under these Regulations which has been committed by a Scottish partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of or to be attributable to any neglect on the part of a partner, that partner as well as the partnership is deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

Offences due to the act or default of a third party

16. Where the commission by any person of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person, that other person is guilty of the offence; and a person may be charged with and convicted of the offence whether or not proceedings are taken against the first mentioned person.

Time limit for prosecutions

17. No prosecution for an offence under these Regulations is to be begun after the expiry of three years from the commission of the offence or one year from its discovery by the prosecutor, whichever is the earlier.

General defences

18.—(1) In any proceedings for an offence under these Regulations it is, subject to paragraph (5), a defence to prove that the person accused ("the accused") took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence by the accused or by a person under the control of the accused.

(2) Without prejudice to the generality of paragraph (1), a person accused of an offence under regulation 4, 6(a) to (f) or 13(1)(a) who did not—

- (a) prepare the material or article in respect of which the offence is alleged to have been committed; nor
- (b) import it into the United Kingdom,

wedi sefydlu'r amddiffyniad a ddarperir gan baragraff (1) os yw gofynion paragraffau (3) neu (4) wedi'u bodloni.

(3) Mae gofynion y paragraff hwn wedi'u bodloni os profir—

- (a) bod y tramgwydd wedi ei gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred unrhyw berson arall nad oedd dan reolaeth y cyhuddedig, neu oherwydd dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson o'r fath;
- (b) naill ai—
 - (i) bod y cyhuddedig wedi cyflawni pob gwiriad, ar y deunydd neu eitem dan sylw, a oedd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau, neu
 - (ii) ei bod yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i'r cyhuddedig ddibynnu ar wiriadau a wnaed gan y person a gyflenwodd y deunydd hwnnw neu'r eitem honno i'r cyhuddedig; ac
- (c) nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac nad oedd ganddo, ar adeg cyflawni'r tramgwydd, reswm dros amau y byddai'r weithred neu'r anwaith yn ffurfio tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Mae gofynion y paragraff hwn wedi'u bodloni os mai gwerthu yw'r tramgwydd ac os profir—

- (a) bod y tramgwydd wedi ei gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred unrhyw berson arall nad oedd dan reolaeth y cyhuddedig, neu oherwydd dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson o'r fath;
- (b) nad oedd y gwerthiant oedd yn ffurfio'r tramgwydd yn werthiant o dan enw neu nôd y cyhuddedig; ac
- (c) nad oedd y cyhuddedig yn gwybod ac na ellid yn rhesymol ddisgwyl iddo wybod ar adeg cyflawni'r tramgwydd y byddai'r weithred neu'r anwaith yn ffurfio tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn.

(5) Os digwydd mewn unrhyw achos bod yr amddiffyniad a ddarperir gan y rheoliad hwn yn golygu honni bod y tramgwydd wedi ei gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred person arall, neu oherwydd dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni fydd gan y cyhuddedig yr hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw, heb ganiatâd y llys, oni bai iddo—

- (a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawriad; a
- (b) pan fo wedi ymddangos gerbron y llys eisoes mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn mis i'w ymddangosiad cyntaf,

fod wedi cyflwyno i'r erlynydd hysbysiad

is to be taken to have established the defence provided by paragraph (1) if the requirements of paragraphs (3) or (4) are satisfied.

(3) The requirements of this paragraph are satisfied if it is proved that—

- (a) the commission of the offence was due to the act or default of some other person who was not under the control of the accused, or to reliance on information supplied by such a person;
- (b) either—
 - (i) the accused carried out all such checks of the material or article in question as were reasonable in all the circumstances, or
 - (ii) it was reasonable in all the circumstances for the accused to rely on checks carried out by the person who supplied the accused with that material or article; and
- (c) the accused did not know and had no reason to suspect at the time the offence was committed that the act or omission would amount to an offence under these Regulations.

(4) The requirements of this paragraph are satisfied if the offence is one of sale and it is proved that—

- (a) the commission of the offence was due to the act or default of some other person who was not under the control of the accused, or to reliance on information supplied by such a person;
- (b) the sale of which the offence consisted was not a sale under the name or mark of the accused; and
- (c) the accused did not know and could not reasonably be expected to know at the time the offence was committed that the act or omission would amount to an offence under these Regulations.

(5) If in any case the defence provided by this regulation involves the allegation that the commission of the offence was due to the act or default of another person, or to reliance on information supplied by another person, the accused is not without leave of the court to be entitled to rely on that defence unless—

- (a) at least seven clear days before the hearing; and
- (b) where he or she has previously appeared before the court in connection with the alleged offence, within one month of his or her first such appearance,

the accused has served on the prosecutor a written

ysgrifenedig a oedd yn rhoi pa bynnag wybodaeth a oedd yn ei feddiant ar y pryd oedd yn enwi'r person arall hwnnw neu'n cynorthwyo i'w adnabod.

Y weithdrefn i'w dilyn pan fydd sampl i'w dadansoddi

19.—(1) Rhaid i swyddog awdurdodedig sydd wedi cael gafael ar sampl o dan adran 29 o'r Ddeddf, ac sydd o'r farn y dylid ei dadansoddi, rannu'r sampl yn dair rhan.

(2) Os yw'r sampl yn cynnwys cynwysyddion wedi'u selio, a phe bai eu hagog yn rhwystro dadansoddiad cywir ym marn y swyddog awdurdodedig, rhaid i'r swyddog awdurdodedig rannu'r sampl yn rhannau drwy roi'r cynwysyddion mewn tair cyfran, a rhaid i bob cyfran gael ei thrin fel pe bai'n rhan.

(3) Mae'r swyddog awdurdodedig—

- (a) os bydd angen gwneud hynny, i osod pob rhan mewn cynhwysydd addas a'i selio;
- (b) i farcio pob rhan neu bob cynhwysydd;
- (c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i roi un rhan i'r perchennog, a'i hysbysu yn ysgrifenedig y bydd y sampl yn cael ei dadansoddi;
- (ch) i gyflwyno un rhan i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30 o'r Ddeddf; a
- (d) i gadw un rhan i'w gyflwyno yn y dyfodol o dan reoliad 20.

Dadansoddi eilaidd gan Gemegydd y Llywodraeth

20.—(1) Pan fydd sampl wedi ei chadw o dan reoliad 19 ac—

- (a) y bwriedir codi achos neu fod achos wedi cychwyn yn erbyn person am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn; a
- (b) bod yr erlyniad yn bwriadu cyflwyno canlyniad y dadansoddiad a grybwyllir uchod fel tystiolaeth,

mae paragraffau (2) i (7) yn gymwys.

(2) O ran y swyddog awdurdodedig—

- (a) caiff, o'i wirfodd ei hun; neu
- (b) rhaid iddo—
 - (i) os bydd yr erlynydd yn gofyn iddo wneud hynny (os person ac eithrio'r swyddog awdurdodedig yw'r erlynydd),
 - (ii) os bydd y llys yn gorchymyn hynny, neu
 - (iii) (yn ddarostyngedig i baragraff (6)) os bydd y diffynnydd yn gofyn iddo wneud hynny,

anfon y rhan o'r sampl y daliwyd gafael ynddi at Gemegydd y Llywodraeth i'w dadansoddi.

(3) Rhaid i Gemegydd y Llywodraeth ddadansoddi'r

notice giving such information identifying or assisting in the identification of that other person as was then in the possession of the accused.

Procedure where a sample is to be analysed

19.—(1) An authorised officer who has procured a sample under section 29 of the Act and who considers it ought to be analysed must divide the sample into three parts.

(2) If the sample consists of sealed containers and opening them would, in the opinion of the authorised officer, impede a proper analysis, the authorised officer must divide the sample into parts by putting the containers into three lots, and each lot must be treated as being a part.

(3) The authorised officer is to—

- (a) if necessary place each part in a suitable container and seal it;
- (b) mark each part or container;
- (c) as soon as is reasonably practicable, give one part to the owner and notify the owner in writing that the sample is to be analysed;
- (d) submit one part for analysis in accordance with section 30 of the Act; and
- (e) retain one part for future submission under regulation 20.

Secondary analysis by the Government Chemist

20.—(1) Where a sample has been retained under regulation 19 and—

- (a) proceedings are intended to be or have been commenced against a person for an offence under these Regulations; and
- (b) the prosecution intends to adduce as evidence the result of the analysis mentioned above,

paragraphs (2) to (7) apply.

(2) The authorised officer—

- (a) may of the officer's own volition; or
- (b) must—
 - (i) if requested by the prosecutor (if a person other than the authorised officer),
 - (ii) if the court so orders, or
 - (iii) (subject to paragraph (6)) if requested by the defendant,

send the retained part of the sample to the Government Chemist for analysis.

(3) The Government Chemist must analyse the part

rhan a anfonwyd ato o dan baragraff (2) ac anfon at y swyddog awdurdodedig dystysgrif sy'n nodi canlyniadau'r dadansoddiad.

(4) Rhaid i unrhyw dystysgrif o ganlyniadau'r dadansoddiad sy'n cael ei throsglwyddo gan Gemegydd y Llywodraeth fod wedi ei llofnodi ganddo ef neu ar ei ran, ond caiff unrhyw berson sydd dan gyfarwyddyd y person sy'n llofnodi'r dystysgrif gynnal y dadansoddiad.

(5) Rhaid i'r swyddog awdurdodedig roi copi o dystysgrif dadansoddiad Cemegydd y Llywodraeth i'r erlynydd (os yw hwnnw'n berson heblaw'r swyddog awdurdodedig) ac i'r diffynnydd ar unwaith pan dderbynio hi.

(6) Os gwneir cais o dan baragraff (2)(b)(iii) caiff y swyddog awdurdodedig roi hysbysiad ysgrifenedig i'r diffynnydd yn gofyn iddo dalu ffi a bennir yn yr hysbysiad i dalu rhan neu'r cyfan o ffi Cemegydd y Llywodraeth am gyflawni'r swyddogaethau o dan baragraff (3), ac os na fydd y diffynnydd yn cytuno i dalu'r ffi a bennir yn yr hysbysiad caiff y swyddog awdurdodedig wrthod cydymffurfio â'r cais.

(7) Yn y rheoliad hwn mae "diffynnydd" yn cynnwys darpar ddiffynnydd.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol y Ddeddf

21.–(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad fod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn–

- (a) adran 2 (ehangu ystyr "sale" etc.);
- (b) adran 30(8) (sy'n ymdrin â thystiolaeth ddogfennol).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r cyfeiriad yn y Ddeddf at is-adran (1) i'w ddehongli fel un sydd yn cynnwys cyfeiriad at Reoliad 1935/2004, Rheoliad 2023/2006 neu Reoliad 450/2009 fel y bo'n briodol.

(3) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf yn cael ei ddehongli fel un sy'n cynnwys cyfeiriad at Reoliad 1935/2004, Rheoliad 2023/2006, neu Reoliad 450/2009, fel y bo'n briodol, at ac at y Rheoliadau hyn–

- (a) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi ei fwriadu i'w fwyta gan bobl) gyda'r addasiadau y bennir bod y cyfeiriadau at "sold" a "sale" yn rhai sy'n cynnwys cyfeiriadau at "placed on the market" a "placing on the market" yn ôl eu trefn;

sent under paragraph (2) and send to the authorised officer a certificate specifying the results of the analysis.

(4) Any certificate of the results of analysis transmitted by the Government Chemist must be signed by or on behalf of the Government Chemist, but the analysis may be carried out by any person under the direction of the person who signs the certificate.

(5) The authorised officer must immediately on receipt supply the prosecutor (if a person other than the authorised officer) and the defendant with a copy of the Government Chemist's certificate of analysis.

(6) Where a request is made under paragraph (2)(b)(iii) the authorised officer may give notice in writing to the defendant requesting payment of a fee specified in the notice to defray some or all of the Government Chemist's charges for performing the functions under paragraph (3), and in the absence of agreement by the defendant to pay the fee specified in the notice the authorised officer may refuse to comply with the request.

(7) In this regulation "defendant" includes a prospective defendant.

Application of various provisions of the Act

21.–(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof is to be construed as a reference to these Regulations–

- (a) section 2 (extending meaning of "sale" etc);
- (b) section 30(8) (which relates to documentary evidence).

(2) In the application of section 32 of the Act (powers of entry) for the purposes of these Regulations, the reference to the Act in subsection (1) is to be construed as including a reference to Regulation 1935/2004, Regulation 2023/2006 or Regulation 450/2009 as appropriate.

(3) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act is to be construed as including a reference to Regulation 1935/2004, Regulation 2023/2006 or Regulation 450/2009, as appropriate, and to these Regulations–

- (a) section 3 (presumptions that food intended for human consumption) with the modifications that the references to "sold" and "sale" is deemed to include references to "placed on the market" and "placing on the market" respectively;

(b) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(b) section 44 (protection of officers acting in good faith).

Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990

22. Yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(1), yn Atodlen 1 (darpariaethau nad yw'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddynt) yn lle enw a chyfeirnod Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007 rhodder enw a chyfeirnod y Rheoliadau hyn.

Diwygiad canlyniadol i Reoliadau 2009

23.–(1) Diwygir Rheoliadau 2009 yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) hepgorer y diffiniad o "the 2007 Regulations".

(3) Ym mharagraff (1)(b) o reoliad 13 (dull o brofi gallu deunyddiau neu eitemau plastig i drosglwyddo cyfansoddion, a dulliau dadansoddi), yn lle'r ymadrodd "regulation 9(2) of the 2007 Regulations" rhodder "regulation 9(2) of the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2010".

Diwygiad i Reoliadau Labelu Bwyd 1996

24.–(1) Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(2) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn lle'r diffiniad o "ingredient" rhodder y diffiniad a ganlyn–

""ingredient" means–

- (a) any substance, including any additive or food enzyme and any constituent of a compound ingredient, which is used in the preparation of a food and which is still present in the finished product, even if in altered form; or
- (b) any released active substance within the meaning of Article 3(f) of Commission Regulation (EC) No. 450/2009 on active and intelligent materials and articles intended to come into contact with food,

Consequential amendment to the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990

22. In the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990(1), in Schedule 1 (provisions to which those Regulations do not apply) for the title and reference of the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2007 substitute the title and reference of these Regulations.

Consequential amendment to the 2009 Regulations

23.–(1) The 2009 Regulations are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In regulation 2(1) (interpretation) omit the definition of "the 2007 Regulations".

(3) In paragraph (1)(b) of regulation 13 (method of testing the capability of plastic materials or articles to transfer constituents, and methods of analysis), for the expression "regulation 9(2) of the 2007 Regulations" substitute "regulation 9(2) of the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2010".

Amendment to the Food Labelling Regulations 1996

24.–(1) The Food Labelling Regulations 1996(2) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In regulation 2(1) (interpretation), for the definition of "ingredient" substitute the following definition–

""ingredient" means–

- (a) any substance, including any additive or food enzyme and any constituent of a compound ingredient, which is used in the preparation of a food and which is still present in the finished product, even if in altered form; or
- (b) any released active substance within the meaning of Article 3(f) of Commission Regulation (EC) No. 450/2009 on active and intelligent materials and articles intended to come into contact with food,

(1) O.S. 1990/2463, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/3252 (Cy. 287); y mae yna offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan O.S. 1990/2463, i'r graddau maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) O.S. 1996/1499. Diwygiwyd y diffiniad o "ingredient" yn flaenorol gan O.S. 2009/3377 (Cy. 299).

(1) S.I. 1990/2463, amended by S.I. 2007/3252 (W. 287); there are other amending instruments but none is relevant. Functions under S.I. 1990/2463, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions were transferred to the Welsh Ministers by section 162 and Schedule 11, paragraph 30 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) S.I. 1996/1499. The definition of ingredient was previously amended by S.I. 2009/3377 (W. 299).

and a "compound ingredient" is composed of two or more such substances;".

Dirymu

25. Dirymir Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007(1).

and a "compound ingredient" is composed of two or more such substances;".

Revocation

25. The Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2007(1) are revoked.

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2010

©© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

The Deputy Minister for Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

15 September 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2007/3252 (Cy. 287), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/481 (Cy. 49) ac O.S. 2009/3105 (Cy. 271).

(1) S.I. 2007/3252 (W. 287), amended by S.I. 2009/481 (W. 49) and S.I. 2009/3105 (W. 271).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 2288 (Cy.200)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd
(Cymru) 2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 2288 (W.200)

FOOD, WALES

The Materials and Articles in
Contact with Food (Wales)
Regulations 2010